

## Brîff Rheolwr y Prosiect - AberGêm

---

### PROSIECT CYFREDOL:

Prosiect celfyddyd dyfeisgar awyr agored yw **AberGêm** (teitl gweithredol) sy'n anelu at drawsffurfio strydoedd Aberystwyth. O dan arweiniad artistiaid lleol ac oedolion ifanc, adroddir stori'r gymuned trwy greu perfformiadau byw, cerddoriaeth, golygfeydd gweledol lliwgar a gosodwaith mewn llefydd annisgwyl, mewn ffordd sy'n ymwybodol o Covid. Rhoddir pwyslais trwm ar y proses yn y prosiect hwn, yn gwreiddio'r gwaith yn y gymuned, yn gweithio gyda phobl ifanc 16 - 25 oed ac artistiaid lleol fel ei gilydd, gan eu cynnwys yn y prosiect trwy broses creadigol deinamig ac hyblyg. Gwireddir y prosiect mewn 2 ran dros 2 flynedd (yn dod i ben yn 2022)

---

### AMDANOM NI:

Menter ar y cyd rhwng [Articulture](#), [Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth](#) a [Boomtown](#) mewn partnerlaeth gyda Chyngor Sir Ceredigion, Mind Aberystwyth a meddwl.org. Mae'r cydweithrediad hwn yn seiliedig ar ddyhead ar ran yr holl bartneriaid i fod yn rym positif yn eu cymunedau ac i ffeindio ffyrdd i gefnogi ac ysbrydoli oedolion ifanc tra hefyd yn gweithio gyda ac yn cefnogi artistiaid lleol.

Noddir AberGêm yn ariannol gan Gyngor Celfyddydau Cymru trwy'r cynllun Cysylltu a Ffynnu.

---

### SWYDD DDISGRIFIAD

Crynodeb o'r Rôl:

'Rydym yn edrych am Reolwr Prosiect Llawrydd trefnus a brwdfrydig i wireddu'r prosiect newydd cyffrous hwn.

Bydd y rôl yn cynnwys datblygu a chynnal cysylltiadau cryf gyda nifer o bartneriaid creadigol (pobl ifanc, y cyngor, artistiaid llawrydd etc), rheoli digwyddiadau, trefnu gweithdai, amserlennu, a gweithio'n fanwl a thrylwyr.

Yn adrodd i: Tîm Rheoli'r Prosiect

---

#### CYFRIFOLDEBAU:

- I arwain ar agweddau o gynhyrchu a gwireddu.
- I gefnogi tîm y prosiect gyda chyfathrebu ac i fynychu cyfarfodydd allanol perthnasol.
- I ddatblygu perthynas gref gydag artistiaid llawrydd a phartneriaid perthnasol.
- I sicrhau bod cyfleoedd i ddatblygu talent yn cael eu maximeiddio ar draws y prosiect.
- I reoli cyllideb deunyddiau a threuliau (gan gadw'r holl dderbynebau etc)
- I sicrhau ymarferion gweithio'n ddiogel yn dilyn protocoliau lechyd a Diogelwch.
- I sicrhau bod yr holl drwyddedau, asesiadau risg, yswiriant, gwiriadau, polisiâu a phrosesau yn eu lle.
- I adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r Tîm Rheoli ar gynnydd y prosiect.
- Cydlynw data gwerthuso/adborth ar gyfer cyllido.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill sydd eu hangen er mwyn gwireddu'r prosiect.

---

#### **MANYLEB BERSONOL:**

## Gwybodaeth a Phrofiad:

### Sgiliau Hanfodol:

- O leiaf 1 flwyddyn o brofiad o weithio ar gynyrchiadau gyda phartneriaid amrywiol
- Profiad o fonitro cyllidebau
- Profiad a weithio ar brosiectau safle-penodol
- Profiad o gynhyrchu/gwireddu/rheoli un neu fwy o'r mathau canlynol o waith: cynyrchiadau awyr agored, safle-penodol, prosiectau cyfranogol, cynyrchiadau ar raddfa fawr
- Profiad o ddelio gyda ffrydiau-gwaith amrywiol gydag amrediad o ddyddiadau cau
- Sgiliau cyfrifiadurol, gyda dealltwriaeth dda o becynnau Microsoft Office a Google Drive
- Yn gweithio'n lleol gyda gwybodaeth dda am yr ardal
- Medru gyrru ac yn berchen ar eich car eich hun
- Yswiriant eich hun

### Sgiliau Dymunol:

- Yn siarad Cymraeg
- Profiad o weithio ar brosiectau cyfranogol
- Profiad o weithio gyda thimau dylunio/technegol/cynhyrchu
- Profiad o adrodd straeon digidol a/neu dechnoleg greadigol

### Sgiliau a Nodweddion:

- Diddordeb brwd yn y celfyddydau
- Agwedd bositif, agos-atoch, ddymunol, hyderus gyda'r gallu i fod yn hyblyg a medru addasu
- Sgiliau datrys problemau da

- Ymrwymiad i amrywioldeb, cynhwysiad a chyfleoedd cyfartal
  - Y gallu i weithio gyda phobl o amrywiaeth eang o gefndiroedd er mwyn creu safleoedd gwaith a phrosiectau sydd o fewn cyrraedd pawb - parodrwydd i addasu ffyrdd o gyfathrebu i siwtio amrediad o anghenion ac agweddau
  - Parodrwydd i rannu syniadau, adnoddau a gwybodaeth gydag eraill
  - Parodrwydd i herio, gofyn cwestiynau anodd ac edrych am ddatrysiadau mewn modd hyderus a chreadigol
  - Sgiliau cyfathrebu ardderchog ac hyderus gan weithio'n fanwl a thrylwyr
  - Sgiliau trefnu a gweinyddu ardderchog
- 

### **CRYNODEB TERMAU**

FFI: £8000

CYTUNDEB: Cytundeb llawrydd

(Yn seiliedig ar dua 50 diwrnod rhwng Gorffennaf 2021 - Ionawr 2022)

Oherwydd natur y rôl, bydd angen rhywfaint o weithio min nos ac ar benwythnosau.

LLEOLIAD GWAITH: Gweithio o gartref, gan wireddu'r prif brosiect ar-safle yn Aberystwyth a'r cylch.

---

### **SUT I GYFLWYNO CAIS**

Pe hoffech ymgeisio am y swydd, gofynnir i chi gyflwyno'r wybodaeth ganlynol erbyn Dydd Llun 25ain Mehefin 2021:

- CV a llythyr eglurhaol (dim mwy na dwy ochr A4)
- Ffurflen gyfleoedd cyfartal wedi'i chwblhau

Dylai ymgeiswyr hefyd ddarparu manylion cyswllt dau ganolwr. Byddwn yn gofyn am eich caniatâd cyn gwneud cyswllt uniongyrchol gydag unrhyw ganolwr. Bydd unrhyw

gynnig o gyflogaeth yn dibynnu ar dderbyn tystlythyrau boddhaol. Rhaid i ymgeiswyr fod yn gymwys i weithio o fewn y DU.

Cysylltwch i ni os gwelwch yn dda pe hoffech gyflwyno cais mewn fformat gwahanol, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau cyn ymgeisio.

Anfonwch decst at 07939 052899 neu e-bostiwch [zoe@articulture-wales.co.uk](mailto:zoe@articulture-wales.co.uk)

Cyflwynwch eich cais drwy e-bost gyda 'RÔL RHEOLWR PROSIECT - ABERGËM' fel testun at [zoe@articulture-wales.co.uk](mailto:zoe@articulture-wales.co.uk) **erbyn** Dydd Gwener 25ain Mehefin am 5pm.

---

## **AMSERLEN RECRIWTIO**

Dyddiad cau am geisiadau: Dydd Gwener 25ain Mehefin 5pm.

Hysbysir ymgeiswyr a osodir ar y rhestr fer erbyn 6pm Gorffennaf 1af os ydynt yn cael eu gwahodd i fynychu cyfveliad.

Cyfveliadau: Dydd Llun a Dydd Mawrth 5ed & 6ed Gorffennaf rhwng 9:30am-1:30pm. Gadewch i ni wybod wrth gyflwyno'ch cais os nad ydych ar gael i fynychu cyfveliad ar y dyddiau hyn.

Cytundeb yn dechrau: Cyn gynted â phosibl yn dilyn y cyfveliad.

---

## **CYFLEOEDD CYFARTAL**

Gwahoddir ymgeiswyr a osodir ar y rhestr fer i nodi unrhyw anghenion mynediad fel y gellir sicrhau y gwneir y trefniadau priodol.

Anelwn at fod yn Gyflogwr Cyfleoedd Cyfartal gan sicrhau nad yw unrhyw berson yn dioddef anffafriaeth yn sgil ein polisïau a gweithdrefnau recriwtio a phenodi. 'Rydym yn

croesawu ceisiadau oddi wrth bob sector o'r gymuned heb ystyried oedran, anabledd, hunaniaeth rhywedd neu fynegiant rhywedd, hil, ethnigrwydd, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu unrhyw nodwedd gyfartaledd arall ac yn gwneud penodiadau yn seiliedig ar allu'r ymgeisydd i gyflawni gofynion y swydd yn unig. 'Rydym yn croesawu ceisiadau oddi wrth unigolion o gefndiroedd sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y celfyddydau ar hyn o bryd. Croesewir ceisiadau yn Saesneg neu Gymraeg.

Cedwir a phrosesir eich cais ac unrhyw wybodaeth bersonol gysylltiedig yn unol â deddfwriaeth Rheolau Gwarchod Data Cyffredinol. Byddwn yn cadw'ch manylion am hyd y prosiect, ac wedyn fe gedwir y data yn anhysbys at bwrpasau monitro. Os ydych yn cael eich cyflogi gennym, bydd y wybodaeth a ddarperir gennych yn cael ei chadw'n ddiogel ac yn ffurfio rhan o'ch cytundeb. Ymdrinir â'r holl wybodaeth yn gyfrinachol. Ni fydd yn cael ei gweld gan staff sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r proses cyfweld ac fe'i defnyddir at bwrpasau monitro a gwerthuso yn unig.